



Ein cyf/Our ref: MA-P-DET/0427/18
Eich cyf/Your ref:

Lawrence Conway
Cadeirydd
Chwaraeon Cymru
Gerddi Sophia
Caerdydd
CF11 9SW
lawrence.conway@sport.wales

9 Chwefror 2018

Annwyl Lawrence

Rwy'n ysgrifennu atoch i amlinellu cylch gwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Chwaraeon Cymru am y cyfnod sy'n weddill o'n rhaglen lywodraethu, sef o 2018-19 i 2020-21. Cyn imi wneud hynny, hoffwn ddiolch ichi ac i'r Bwrdd am eich arweinyddiaeth, a hefyd i staff Chwaraeon Cymru am y proffesiynoldeb a'r ymrwymiad rydych wedi eu dangos yn ystod cyfnod anodd a heriol i'r sefydliad y llynedd.

Dylai Chwaraeon Cymru barhau i bennu amcanion llesiant a fydd yn ei alluogi i wneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mewn ffordd sy'n bodloni'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Dylai'r buddsoddiadau rydych yn eu gwneud a'r gweithgareddau rydych yn eu hwyluso ac yn eu cefnogi helpu i wireddu ein dyhead i newid bywydau pobl Cymru er gwell, er mwyn creu dyfodol llewyrchus ar gyfer y cenedlaethau i ddod.

Mae'r blaenoriaethau ar gyfer cyfnod y cylch gwaith wedi'u pennu yng nghyd-destun 'Symud Cymru Ymlaen' a 'Ffyniant i Bawb'. Mae'r ymrwymadau, sy'n seiliedig ar ein hamcanion llesiant, yn rhoi cyfle i ddod o hyd i atebion newydd i'r heriau mae Cymru yn eu hwynebu. Maent yn dangos sut rydym yn gweithredu ac yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol er mwyn cefnogi unigolion i lwyddo yn ystod pob cyfnod o'u bywydau.

Mae Chwaraeon Cymru yn parhau i ddarparu swyddogaeth bwysig wrth greu a hwyluso cyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar gyfer pobl Cymru mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r sector hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig i dwf economi Cymru drwy'r elw cymdeithasol a ddaw yn sgil buddsoddi mewn chwaraeon, a'r gwerth economaidd sy'n

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gysylltiedig â gwirfoddoli, datblygu sgiliau a chyflogaeth. Mae arloesi ac entrepreneuriaeth yn nodweddion allweddol er mwyn helpu busnesau i oresgyn heriau'r dyfodol. Drwy ystyried sut y mae chwaraeon yn cael eu cyflwyno drwy wasanaethau a chynhyrchion a'r sgiliau y mae eu hangen ar y gweithlu er mwyn denu a chadw diddordeb pobl mewn cymryd rhan a gwylio chwaraeon, gall y sector helpu i gyflawni nodau economaidd Llywodraeth Cymru, sydd wedi'u hamlinellu yn 'Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi'.

Yn ystod cyfnod y Llythyr Cylch Gwaith hwn, rwy'n disgwyl i argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o Chwaraeon Cymru (Gorffennaf 2017) gael eu rhoi ar waith yn llawn. Rwyf hefyd yn disgwyl ichi barhau â'r gwaith rydych wedi dechrau gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol pobl, drwy ddatblygu blaenoriaethau hirdymor a chamau gweithredu fydd â mesuriadau perfformiad cytûn.

Rwy'n disgwyl ichi gynnwys y blaenoriaethau canlynol yn eich Cynllun Busnes ar gyfer 2018-19:

- Datblygu gweledigaeth gydweithredol ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru, a Strategaeth Chwaraeon hirdymor ar gyfer Cymru yn sgil hynny.
- Dull diwygiedig o fesur a gwerthuso, yn ogystal â dealltwriaeth ac arloesedd i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r strategaeth newydd.
- Ystyried canfyddiadau'r gwerthusiadau o'r rhaglenni cenedlaethol a gynhaliwyd yn 2017-18 a bwrw ymlaen ag unrhyw gamau gweithredu y cytunir arnynt.
- Cydweithio â phartneriaid i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i hybu 'Blwyddyn y Môr'.
- Parhau i archwilio'r potensial i greu model newydd ar gyfer chwaraeon cymunedol ledled Cymru.
- Darparu cymorth a chyingor strategol i weithredu'r adolygiad o gyfleusterau chwaraeon elîd a chymunedol ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i foderneiddio ac ehangu mynediad at gyfleusterau chwaraeon.

Yn ystod 2018-19, dylech ddatblygu Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2018-21 a fydd yn cyflawni'r ymrwymadau, yr amcanion a'r canlyniadau isod:

Ymrwymadau

- Annog a hwyluso cyfleoedd i ragor o bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau egniïol yn ystod pob cyfnod o'u bywydau.
- Dylai Chwaraeon Cymru barhau i weithio gyda'r sector addysg er mwyn sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd drwy annog a chefnogi ysgolion i ddatblygu llythrennedd corfforol a llesiant eu disgyblion.
- Buddsoddi ymdrechion ac adnoddau lle bo'u hangen fwyaf, pan fo amrywiaethau arwyddocaol o ran cyfranogiad a phan fo diffyg cyfleoedd neu ddiffyg dyhead i gymryd rhan mewn gweithgareddau egniïol.
- Helpu chwaraeon i barhau i feithrin, datblygu a chefnogi talent er mwyn cyflawni llwyddiannau sy'n ysbrydoli pobl ac yn atgyfnerthu ein hunaniaeth fel cenedl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon.
- Cefnogi'r sector i ddefnyddio buddsoddiad cyhoeddus mewn ffordd sy'n cael mwy o effaith, a'i helpu hefyd i addasu, i ddod yn fwy cydnerth ac i ddangos sut y mae'n cyfrannu at ein nodau ac amcanion llesiant cenedlaethol.
- Archwilio sut i ddefnyddio technoleg ac arloesedd er mwyn ymgysylltu â phobl ac ailennyn eu diddordeb mewn chwaraeon a chynnal eu diddordeb a'u brwdfrydedd mor hir â phosibl.
- Datblygu cynigion ar gyfer Cronfa Her newydd a fydd yn arloesi ac yn defnyddio technoleg er mwyn sicrhau cynnydd yn y niferoedd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, ac archwilio sut i greu partneriaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a'i chyfuno â Bond Lles i greu cronfa ar y cyd sy'n gysylltiedig â'r amcanion lach ac Egniïol yn Ffyniant i Bawb.

Amcanion

- Bydd pobl yng Nghymru yn gorfforol egniol ac felly yn byw bywydau iachach.
- Bydd gan blant a phobl ifanc y cymhelliant, y sgiliau corfforol, yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol drwy gydol eu bywydau.
- Bydd Cymru yn cael ei chydabod yn rhyngwladol fel cenedl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yn llwyddiannus.
- Bydd Chwaraeon Cymru yn sefydliad a fydd yn esiampl i eraill ac yn ysgogi diwylliant sy'n hyrwyddo llesiant, cydraddoldeb a chynaliadwyedd.

Canlyniadau

- Rhagor o bobl yn bodloni canllawiau'r Prif Swyddog Meddygol ar weithgarwch corfforol.
- Rhagor o bobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol deirgwaith neu fwy yr wythnos.
- Cynyddu lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol gan y rheini sydd â'r angen mwyaf neu sy'n fwyaf difreintiedig.
- System sy'n cyflawni llwyddiannau parhaus mewn chwaraeon elît, yn ogystal â sicrhau diogelwch, llesiant a lles y bobl sy'n cymryd rhan ynddynt.

Ceir cadarnhad yn Atodlen A o'ch cyllid cymorth grant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19, yn ogystal â chyllideb ddangosol ar gyfer 2019-20.

Yn gywir,



Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM

Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon
Minister for Culture, Tourism and Sport

CYLLID CYMORTH GRANT

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid cymorth grant o £22,422 i Chwaraeon Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19, a chyllideb ddangosol o £22,421 ar gyfer 2019-20. Bydd y gyllideb ddangosol yn amodol ar gadarnhau cyllidebau ar ôl Cylch Cynllunio blynyddol y Gyllideb yn nes ymlaen eleni.

Dyraniad y Gyllideb Cymorth Grant

	Cynlluniau 2018-19 (£000oedd)	Cyllideb Ddangosol 2019-20 (£000oedd)
Refeniw (bron yn arian parod)		
Costau Rhedeg	1,327	1,327
Gwariant Cyfredol	23,686	23,686
Derbyniadau Cyfredol	-3,700	-3,700
Cyfanswm Refeniw (bron yn arian parod)	21,313	21,313
Cyfalaf		
Gwariant Cyfalaf	330	329
Cyfanswm Cyfalaf	330	329
Heb fod yn arian parod		
Dibrisiant	779	779
Cyfanswm nad yw'n arian parod	779	779
CYFANSWM Y CYMORTH GRANT	22,422	22,421

Mae cyfanswm y cymorth grant yn cynrychioli uchafswm y ddarpariaeth ac mae'n seiliedig ar adnoddau. Rwy'n disgwyl i Chwaraeon Cymru gadw at ffigurau'r llinell wariant hon cyhyd ag y bo modd a rhoi gwybod am unrhyw newidiadau rhagamcanol cyn gynted â phosibl drwy'r cyfarfodydd monitro chwarterol. Byddwn yn parhau i dalu cymorth grant ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â chynnwys y Ddogfen Fframwaith.

Caiff perfformiad Chwaraeon Cymru ei fesur yn ôl y cynnydd a wneir yn unol â'r blaenoriaethau strategol a nodir yn y Llythyr Cylch Gwaith hwn ac yn ei Gynllun Busnes, ynghyd â'r ymrwymadau, yr amcanion a'r canlyniadau y cytunir arnynt yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2018-21.

Bydd y trefniadau ar gyfer monitro perfformiad a chynnydd Chwaraeon Cymru yn parhau ar ffurf cyfarfodydd rheolaidd ar lefel swyddogion a'n cyfarfodydd ni. Hoffwn ichi ddarparu adroddiad ar eich perfformiad yn 2017-18 cyn ein cyfarfod yn yr haf, ynghyd ag adroddiad

ar eich perfformiad yn ystod hanner cyntaf 2018-19 cyn ein cyfarfod yn yr hydref. Disgwylir ichi ddarparu adroddiadau tebyg ar gyfer blynyddoedd sy'n weddill o'r cylch gwaith hefyd.